Goleuadau Nadolig Llanbedr :

Dydd Gwener 4ydd Rhagfyr

4.00 - 7.00 y.h. Hen Eglwys Sant Pedr

Dilynwch lwybr y golau a'r gerddoriaeth i fyny at Y Preseb Symudol ger Hen Eglwys Sant Pedr o 4.00 tan 7.00 y.h. Cofiwch gadw gydag aelodau o'ch cartref ac ni chaniateir mwy na 30 person ar y tro. (Bydd rheolau pellhau cymdeithasol yn cael eu dilyn a'u monitro ar hyd y lôn ac o amgylch y fynwent.) Anogir pawb sy'n dod i gario fflachlamp yn ogystal â golau nos mewn pot jam i'w adael ar y safle. Bydd mins peis a siocled poeth ar gael.

5.00 - 6.30 y.h. Fflôt Nadolig y pentref

Byddwn yn rhoi goleuadau'r goeden yn yr ardd lechi ymlaen am 5 y.h., yn ogystal â'r goleuadau o gwmpas Neuadd y Gymuned. Yna bydd car a threlar, yn chwarae cerddoriaeth Nadoligaidd, yn dilyn llwybr penodol o gwmpas y pentref (cychwyn ym mhen Hirwaen a gorffen ym mhen Plas Llanbedr). I ddechrau, bydd cysegriad yn yr ardd lechi, ac yna fe oleuir y goeden Nadolig yn swyddogol. Hoffem weld pawb o'r pentref yn rhoi goleuadau ymlaen tu allan neu oddi fewn i'w tai, neu hyd yn oed oleuadau bach mewn potiau jam ar stepen y drws, fel bod pawb yn rhan o'r "goleuo".

Rydym yn ymwybodol na fydd y Nadolig 'run fath eleni, ond rydym yn dal i fod eisiau i bawb yn y pentref deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi fel aelodau o'r Gymuned